# Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

## Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018–2033

## Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd

## Ffurflen Sylwadau

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

*At ddefnydd y swyddfa'n unig*

*Rhif yr Ymatebydd*

*Dyddiad derbyn:*

*Dyddiad cydnabod:*

Hoffem glywed eich barn ynghylch Fersiwn Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd Conwy a'r dogfennau ategol.

**Byddai'n well gennym petaech yn cyflwyno eich sylwadau ar lein drwy fynd i www.conwy.gov.uk/gpsc/cdlln.** Bydd hynny'n sicrhau fod modd derbyn a chofnodi eich sylwadau'n ddiogel. Os ydych chi'n bwriadu cyflwyno sylwadau drwy lenwi'r ffurflen hon, fodd bynnag, dilynwch y camau isod.

Dylid defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer unrhyw sylwadau (hynny yw, o blaid neu yn erbyn). Os ydych chi'n cyflwyno'ch ymateb ar bapur, mae croeso ichi atodi unrhyw dudalennau ychwanegol sydd eu hangen i ategu eich sylwadau.

Mae dwy ran i'r ffurflen hon: Rhan A (Manylion personol) a Rhan B (Eich sylwadau). Sylwer mai dim ond Rhan B a gaiff ei rhannu'n gyhoeddus a'i hanfon at yr Arolygiaeth Gynllunio.

**Mae'n rhaid inni dderbyn eich sylwadau erbyn 8 Mawrth 2026** drwy e-bost i cdll.ldp@conwy.gov.uk neu drwy'r post i'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Blwch Post 1, Bae Colwyn, LL29 0GG.

## RHAN A: Manylion cyswllt

| **Eich manylion chi / manylion eich cleient** | | **Manylion yr asiant** (os oes un) |
|---|---|---|
| Enw | | |
| Sefydliad (os yw'n berthnasol) | | |
| Cyfeiriad e-bost | | |
| Cyfeiriad | | |
| Llofnod | | |
| Dyddiad | | |

## RHAN B: Eich sylwadau

| | |
|---|---|
| **1. A ydych o blaid neu yn erbyn?** | |
| O blaid | |
| Yn erbyn | |
| **2. Ynglŷn â pha ran neu rannau o'r Cynllun (neu'r dogfennau ategol) ydych chi'n gwneud eich sylwadau?** | |
| Rhif neu rifau o blith polisïau'r CDLl neu safleoedd a ddyrannwyd | |
| Rhif neu rifau o blith paragraffau neu adrannau'r CDLl | |
| Cyfeirnod(au) ym Map Cynigion y CDLl | |
| Os oes a wnelo'ch sylwadau ag un o'r dogfennau ategol (er enghraifft, yr Arfarniad o Gynaladwyedd), rhowch yr enw(au) a'r cyfeirnod(au) yma. | |
| **3. Cyn ichi fanylu ynghylch eich safbwyntiau, byddai'n fuddiol inni wybod a ydych o'r farn bod y Cynllun yn gadarn ac yn bodloni'r gofynion gweithdrefnol.**<br>*I gael mwy o wybodaeth am gadernid a'r gofynion gweithdrefnol, gweler y canllawiau isod.* | |
| Credaf fod y CDLl yn gadarn ac yn bodloni'r gofynion gweithdrefnol. | |
| Credaf nad yw'r CDLl yn gadarn ac y dylid ei newid. | |
| Credaf na fodlonwyd y gofynion gweithdrefnol. | |
| **4. A yw'r Cynllun yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd i Gydweithredu**<br>*I gael mwy o wybodaeth am y Ddyletswydd i Gydweithredu, gweler y canllawiau isod.* | |
| Ydi | |
| Nac ydi | |
| **5. Pa effeithiau a gaiff y cynigion yn y CDLl ar y Gymraeg?** | |
| | |
| **6. A hoffech chi i'r CDLl gynnwys polisi, dyraniad safle neu baragraff <u>newydd</u>?**<br>Ticiwch <u>bob un</u> sy'n berthnasol. | |
| Dyraniad safle newydd | |
| Polisi newydd | |

| | |
|---|---|
| Paragraff newydd neu destun ategol | |
| **7. Os dymunwch ychwanegu dyraniad safle newydd, ydych chi eisoes wedi'i gyflwyno fel Safle Ymgeisiol? Os felly, rhowch enw'r Safle Ymgeisiol a'r cyfeirnod (os yw'n hysbys).** | |
| Enw'r safle | |
| Cyfeirnod y safle | |
| Os hoffech awgrymu safle newydd, atodwch gynllun sy'n dangos ffiniau'r safle y dymunwch ei gynnwys yn y Cynllun a rhowch fanylion ynglŷn â'r ffordd y bwriedir ei ddefnyddio. Dylech hefyd ystyried a oes angen cynnwys arfarniad o gynaladwyedd gyda'r ffurflen sylwadau hon. Pe byddai'r newidiadau a gynigir mewn cynllun datblygu'n cael effeithiau arwyddocaol ar gynaladwyedd, bydd angen ichi ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol ar ffurf arfarniad o gynaladwyedd. Mae'n rhaid i'r wybodaeth honno fod yn gyson â chwmpas a manylder yr arfarniad o gynaladwyedd y mae'r Awdurdod wedi'i gynnal. Dylai hefyd gyfeirio at yr un wybodaeth sylfaenol wrth nodi'r effeithiau arwyddocaol sy'n debygol o ddeillio o ddiwygio'r polisi neu gynnwys safle newydd. | |
| **8. Rhowch eich sylwadau isod.**<br>Dylech gynnwys yr holl wybodaeth, tystiolaeth a gwybodaeth ategol angenrheidiol i gefnogi / cyfiawnhau eich sylwadau. Dylech nodi pa brawf neu brofion cadernid y mae'r CDLl yn eu bodloni neu beidio, ac egluro pam (gweler y canllawiau am fwy o wybodaeth). Bydd hynny'n helpu'r Awdurdod a'r Arolygydd i ddeall y materion rydych chi'n eu codi. Ni allwch gyflwyno gwybodaeth ychwanegol i'r archwiliad ond os yw'r Arolygydd yn eich gwahodd i drafod materion y bydd ef neu hi wedi'u codi. Sylwer na fydd gan yr Arolygydd fynediad at unrhyw sylwadau a wnaethoch wrth ymateb i ymgyngoriadau yn y gorffennol. | |
| | |
| Ticiwch yma os ydych yn cyflwyno deunydd ychwanegol i ategu eich sylwadau. | |

| | |
|---|---|
| **9. Os ydych chi'n gwrthwynebu'r CDLl, a hoffech chi siarad mewn gwrandawiad dan yr archwiliad cyhoeddus?**<br><br>Yn y cam hwn, ni allwch ond cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Fodd bynnag, gall pawb sy'n dymuno diwygio'r Cynllun ymddangos gerbron yr Arolygydd a siarad ag ef neu hi mewn 'sesiwn wrandawiad' yn ystod yr archwiliad cyhoeddus. Ond dylech gadw mewn cof y bydd yr Arolygydd yn rhoi'r un pwys ar eich sylwadau ysgrifenedig yn y ffurflen hon â rhai a wneir ar lafar mewn sesiwn wrandawiad. Sylwer hefyd mai'r Arolygydd a fydd yn penderfynu'r weithdrefn fwyaf priodol ar gyfer hwyluso cyfraniadau'r rhai hynny sy'n dymuno cyflwyno tystiolaeth ar lafar. | |
| Ni ddymunaf siarad mewn gwrandawiad cyhoeddus ac rwy'n fodlon i'r Arolygydd ystyried fy sylwadau ysgrifenedig. | |
| Dymunaf siarad mewn gwrandawiad cyhoeddus. | |
| Os dymunwch gymryd rhan mewn gwrandawiad, nodwch isod yr hyn y dymunwch siarad amdano (er enghraifft, 'safle Tai' neu'r 'targed tai cyffredinol'). | |
| | |
| **10. Os dymunwch siarad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi ym mha iaith yr hoffech gael eich clywed.** | |
| Hoffwn gael fy nghlywed yn Gymraeg | |
| Hoffwn gael fy nghlywed yn Saesneg. | |
| | |

# Canllawiau

Bydd Arolygydd Cynllunio annibynnol wedi'i benodi gan Lywodraeth Cymru'n archwilio Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) Conwy. Gwaith yr Arolygydd yw ystyried a yw'r Cynllun yn bodloni'r 'Gofynion Gweithdrefnol' a'r tri o 'Brofion Cadernid'.

**Gofynion Gweithdrefnol**

- A baratowyd y cynllun yn unol â'r gofynion gweithdrefnol dan y gyfraith a rheoliadau? (Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol, Cytundeb Cyflawni, Cynllun Cynnwys y Gymuned, Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Strategol, Arfarniad o Gynaladwyedd, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac yn y blaen)
- A yw'r cynllun yn gyffredinol yn cydymffurfio â 'Chynllun Cenedlaethol' Cymru'r Dyfodol 2040 a/neu'r Cynllun Datblygu Strategol? (ar adeg cyhoeddi'r un cyntaf o'r rheiny a mabwysiadu'r ail)

**Profion Cadernid**

Gellir dehongli 'cadarn' yn y cyd-destun hwn yn ôl yr ystyr cyffredinol o 'ddangos doethineb' a 'medru ymddiried [yn y cynllun]'. Y rhain yw'r cwestiynau neu 'brofion' y bydd yr Arolygydd yn eu hystyried wrth benderfynu a yw'r Cynllun yn gadarn:

1. A yw'r cynllun yn gweddu? (hynny yw, a yw'n gyson â chynlluniau a strategaethau eraill?)
2. A yw'r Cynllun yn briodol? (hynny yw, a yw'n briodol ar gyfer ardal Conwy ar sail y dystiolaeth?)
3. A fydd y Cynllun yn cyflawni? (hynny yw, a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Ceir mwy o wybodaeth ynglŷn â phrofion cadernid a'r gofynion gweithdrefnol yng Nghanllawiau Gweithdrefnol yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer Archwiliadau Cynlluniau Datblygu Lleol: canllawiau gweithdrefnol | LLYW.CYMRU a Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (Argraffiad 3): Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru (Argraffiad 3) Mawrth 2020 | LLYW.CYMRU

**Y Ddyletswydd i Gydweithredu**

Cyflwynwyd y Ddyletswydd i Gydweithredu dan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011. Mae'r Ddyletswydd yn mynnu bod awdurdodau cynllunio lleol yn "ymgysylltu'n adeiladol, yn weithredol ac yn barhaus" ag awdurdodau cyfagos wrth baratoi eu cynlluniau lleol.

Nid dyletswydd i gytuno mo'r ddyletswydd i gydweithredu. Serch hynny, dylai awdurdodau cynllunio lleol wneud pob ymdrech i sicrhau'r cydweithrediad angenrheidiol ar faterion strategol sy'n pontio ffiniau cyn iddynt gyflwyno eu Cynlluniau Lleol er archwiliad.

Os ydych chi'n gwrthwynebu, dylech ddatgan pam y credwch nad yw'r Cynllun yn gadarn a sut y dylid newid y Cynllun fel ei fod yn gadarn.

Os ydych yn argymell newid yn y Cynllun, byddai'n ddefnyddiol petaech yn egluro pa brawf neu brofion cadernid y credwch fod y Cynllun wedi'i fethu/eu methu. Os oes a wnelo'ch sylwadau â'r modd y paratowyd y Cynllun neu'r modd yr ymgynghorwyd yn ei gylch, mae'n debygol y bydd a wnelo'ch sylwadau â 'gofynion gweithdrefnol'.

Ni fydd methu â nodi prawf penodol yn golygu y caiff eich sylwadau eu diystyru, ar yr amod eu bod a wnelo â'r Cynllun neu'r dogfennau ategol. Dylech gynnwys eich holl sylwadau ar y ffurflen a defnyddio dogfennau a thystiolaeth ategol fel y bo'r angen.

Os ydych chi'n argymell mwy nag un o newidiadau yn y Cynllun, nid yw'n angenrheidiol bob tro i lenwi ffurflenni ar wahân ar gyfer eich amryw sylwadau. Gallai fod yn fuddiol llenwi dwy ffurflen, fodd bynnag, os dymunwch siarad mewn gwrandawiad am rai o'ch gwrthwynebiadau ond nid eraill.

Os oes grŵp yn rhannu'r un safbwynt ynglŷn â'r modd y dymunir newid y Cynllun, byddai'n ddefnyddiol pe byddai'r grŵp dan sylw'n anfon un ffurflen gyda'i sylwadau, yn hytrach na bod nifer fawr o unigolion yn anfon ffurflenni ar wahân yn ailadrodd yr un peth. Mewn achosion felly, dylai'r grŵp ddynodi nifer yr unigolion y mae'n eu cynrychioli a'r modd yr awdurdodwyd y sylwadau. Dylid nodi'n glir pwy yw cynrychiolydd y grŵp (neu brif ddeisebwr).